amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Storïau Beiblaidd o'r Actau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori 1 Pedr yn pregethu

DARLLENWCH
Actau 2: 1-14, 36-39

Mae'r stori yma'n sôn am:
Yr Ysbryd Glân yn dod

Roedd Iesu Grist wedi mynd nôl i'r Nefoedd. Ar ôl rhai dyddiau, anfonodd yr Ysbryd Glân i helpu ei ddisgyblion. Roedd angen help yr Ysbryd Glân ar y disgyblion i ddweud wrth y bobl am Iesu.

Lliwiwch y llun o Pedr yn siarad â llawer o bobl.

Pwy ddaeth i helpu'r disgyblion?

Y__ Y__ __ __ __ __ G__ __ __

Pan ddaeth yr Ysbryd Glân, roedd y disgyblion mewn tŷ. Pan ddaeth yr Ysbryd Glân, roedd yn swnio fel gwynt ac yn edrych fel tân. Gwnaeth yr Ysbryd Glân y disgyblion yn ddigon cryf a dewr i ddweud y newyddion da am Iesu wrth bawb.



Dechreuodd Pedr bregethu wrth dorf fawr o bobl y tu allan i'r tŷ. Dywedodd y dylai fod yn ddrwg ganddyn nhw am yr hyn roedden nhw wedi'i wneud i IESU. Dylen nhw gredu ynddo a byddai Duw yn maddau iddyn nhw.

Lliwiwch y llun

Enw

DARLLENWCH
Actau 3: 1-12

Mae'r stori yma'n sôn am:
Duw'n gwella pobl

Stori 2 Pedr yn gwella dyn cloff.

Un diwrnod, ychydig ar ôl i'r Ysbryd Glân ddod, roedd Pedr ac Ioan yn mynd i'r Deml. Roedd cardotyn yn eistedd wrth y gât. Roedd yn gloff. Doedd e ddim wedi gallu cerdded erioed. Roedd yn meddwl bod Pedr ac Ioan yn mynd i roi arian iddo ond roedd gan Pedr rywbeth gwell nag arian iddo! "Yn enw Iesu Grist o Nasareth," meddai Pedr, "cwyd a cherdda."
Cydiodd yn ei law a'i helpu i godi ac, ar unwaith, roedd y dyn cloff yn gallu cerdded yn iawn!

Lliwiwch y llun.

Cerddodd y dyn o le i le a hyd yn oed neidio yn yr awyr, gan foli Duw am ei wella. Daeth llawer o bobl i'w weld a soniodd Pedr wrthyn nhw am Iesu Grist. Roedden nhw wedi rhoi Iesu ar groes, ond roedd Duw wedi ei godi nôl yn fyw. Nerth Iesu oedd wedi gwneud y dyn cloff yn well.

Lliwiwch y geiriau gwag.

"Yn enw Iesu, cwyd a cherdda..."

Enw

DARLLENWCH
Actau 4: 1-22

Mae'r stori yma'n sôn am:
Duw'n helpu pobl sy'n dda iddo

Stori 3 Pedr yn y carchar

Roedd Pedr ac Ioan yn sôn wrth bobl sut y daeth Iesu nôl yn fyw ar ôl marw. Daeth dynion pwysig y Deml atynt. Roedden nhw wedi gwylltio â Pedr ac Ioan. Doedden nhw ddim yn credu'r newyddion da am Iesu, felly rhoddon nhw Pedr ac Ioan yn y carchar am y noson.

Ysgrifennwch enwau'r ddau ddisgybl gafodd eu rhoi yn y carchar yn y blychau a lliwiwch y llun.

Fore trannoeth, roedd rhaid i Pedr ac Ioan fynd i'r llys. Dywedodd pobl y llys wrthyn nhw am beidio â sôn am Iesu eto. Ond doedd dim ofn ar Pedr ac Ioan. Roedden nhw'n mynd i fod yn ufudd i Iesu, beth bynnag fyddai'n digwydd iddyn nhw. Roedden nhw'n gwybod y byddai Iesu'n eu helpu. Dylen ni wrando ar Iesu bob amser hefyd.

Lliwiwch yr adnod o'r Beibl a'i dysgu.

"Yr Arglwydd yw'r un sy'n fy helpu i."

Hebreaid 13: 6

Enw

DARLLENWCH
Actau 4: 23-31

Mae'r stori yma'n sôn am:
Duw'n ateb gweddi

Stori 4 Pedr yn dod yn rhydd

Roedd Pedr ac Ioan yn hapus pan gawson nhw fynd yn rhydd o'r llys. Aethon nhw i weld eu ffrindiau yn syth. Dywedon nhw wrth eu ffrindiau beth oedd wedi digwydd. Yna dyma pawb yn cytuno i weddïo ar Dduw. Roedden nhw am ofyn iddo am nerth i ledaenu'r newyddion da am yr Arglwydd Iesu.

Dechreuodd y Cristnogion

w __ ___ __ __ ar Dd__ __.

A wnaeth Duw ateb eu gweddïau? Do, wir! Ysgydwodd yr adeilad a cafodd pob un ei lenwi â nerth Duw. Doedd dim angen poeni am beth ddywedodd y llys. Bydden nhw'n gwrando ar Iesu a byddai Iesu'n eu helpu.

Lliwiwch yr adeilad ac ysgrifennu un gair.



Pan oedd y bobl yn gweddïo,
y__ __ __ __ __ __ ____ yr adeilad.
Pan fyddwn ni'n ufudd i Dduw ac yn ei drystio, gallwn ni fod yn siwr y bydd yn ein helpu ni hefyd.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120